NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

CYMRU

# POLISÏAU CYFLOGAU YSGOLION RHESTR WIRIO

## PWRPAS Y RHESTR WIRIO

Cred yr NASUWT fod polisi cyflogau teg, tryloyw a chyson, sy'n cydnabod ac yn gwobrwyo athrawon fel gweithwyr proffesiynol hynod fedrus, yn elfen allweddol o wella ysgolion yn effeithiol.

Bydd polisïau cyflogau ysgolion sy'n gyson â darpariaethau'r rhestr wirio hon yn cynorthwyo i recriwtio, cadw a chymell athrawon, yn darparu sail ar gyfer cynllunio cadarn o ran cyllid a phersonél ac yn lleihau i'r eithaf y risg o gwyno a gwahaniaethu.

Mae'r rhestr wirio'n nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer polisi cyflog effeithlon ac mae'n gwbl gyson â'r darpariaethau statudol ar gyfer cyflog athrawon o 1 Medi 2015.

Mae polisi cyflogau ysgolion enghreifftiol yr NASUWT yn cynnwys holl ddarpariaethau'r rhestr wirio hon ac yn gyson â phob gofyniad statudol ac yn cydymffurfio â hwy.

Nid yw cyhoeddi rhestr wirio NASUWT gyfystyr â derbyn y newidiadau i system gyflogau athrawon a gyflwynwyd neu a gynigiwyd gan yr Adran Addysg.

Mae'r NASUWT wedi ymroi i sicrhau strwythur cyflogau cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr sy'n statudol berthnasol i bob ysgol a gynhelir ac academïau.

## PENDERFYNIADAU CYFLOG AR GYFER MIS MEDI 2015

### *Dyfarniadau Cyflog*

Mae'r ysgol wedi ymroi i ddyfarnu'r codiad cyflog fel y nodir ym mholisi cyflogau ysgolion enghreifftiol yr NASUWT i bob pwynt cyflog a lwfansau presennol i bob athro o fis Medi 2015.

## PENDERFYNIADAU CYFLOG O FIS MEDI 2015

***Rheoli/arfarnu perfformiad athrawon***

- Bydd gweithdrefnau rheoli/arfarnu perfformiad yn yr ysgol yn gweithredu'n unol â rhestr wirio'r NASUWT.

***Penderfynu ar gyflogau***

- Bydd yr ysgol yn penderfynu ar gyflog athro'n flynyddol ac yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r athro o'r penderfyniad ynglŷn â'i gyflog erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, a bydd mewn grym o 1 Medi'r flwyddyn honno.

***Pennu cyflog rhai a benodwyd/cynnal 'hygludedd cyflog'***

- Mae'r ysgol wedi ymroi i'r egwyddor o hygludedd cyflog a bydd yn defnyddio'r egwyddor hon wrth wneud pob penodiad newydd.

***Pennu'r ystodau cyflog ar gyfer swyddi addysgu gwag***

- Ni fydd yr ysgol yn cyfyngu ar y cyflog ar gael i'r rhai a benodir i swyddi gwag ar gyfer athrawon dosbarth, ac eithrio terfyn isaf y Brif Ystod Gyflog a therfyn uchaf yr Ystod Gyflog Uwch.

***Y Brif Ystod Gyflog – graddfa gyflog***

- Bydd athrawon ar y Brif Ystod Gyflog yn cael eu talu ar y raddfa chwe phwynt ar y Brif Ystod Gyflog isod.

***Y Brif Ystod Gyflog – datblygiad cyflog***

- Dyfernir datblygiad cyflog i athrawon ar y Brif Ystod Gyflog yn dilyn adolygiad rheoli/arfarnu perfformiad llwyddiannus.
- Caiff adolygiadau eu hystyried yn rhai llwyddiannus oni fydd pryderon sylweddol am safonau perfformiad wedi eu codi'n ysgrifenedig gyda'r athro yn ystod y cylch rheoli/arfarnu perfformiad blynyddol a heb dderbyn sylw digonol drwy gefnogaeth wedi'i darparu gan yr ysgol erbyn diwedd y broses honno.
- Bydd athrawon yn ystod eu blwyddyn gynefino yn derbyn datblygiad cyflog pan fyddant wedi cwblhau'r cyfnod cynefino'n llwyddiannus.

***Symud o'r Brif Ystod Gyflog i'r Ystod Gyflog Uwch***

- Bydd athrawon sy'n gwneud cais i symud i'r Ystod Gyflog Uwch o bwynt chwech y Brif Ystod Gyflog yn derbyn datblygiad i'r Ystod honno gan ystyried y ddau adolygiad rheoli/arfarnu perfformiad diweddaraf.
- Caiff adolygiadau eu hystyried yn rhai llwyddiannus oni fydd pryderon sylweddol am safonau perfformiad wedi eu codi'n ysgrifenedig gyda'r athro yn ystod y cylch rheoli/arfarnu perfformiad blynyddol a heb dderbyn sylw digonol drwy gefnogaeth wedi'i darparu gan yr ysgol erbyn diwedd y broses honno.

*Ystod Gyflog Uwch – graddfa gyflog*

- Bydd athrawon ar yr Ystod Gyflog Uwch yn cael eu talu ar y raddfa tri phwynt ar yr Ystod Gyflog Uwch isod.

*Yr Ystod Gyflog Uwch – datblygiad cyflog*

- Dyfernir datblygiad cyflog i athrawon ar yr Ystod Gyflog Uwch yn dilyn dau adolygiad rheoli/arfarnu perfformiad llwyddiannus.
- Caiff adolygiadau eu hystyried yn rhai llwyddiannus oni fydd pryderon sylweddol am berfformiad wedi eu codi'n ysgrifenedig gyda'r athro yn ystod y cylch rheoli/arfarnu perfformiad blynyddol a heb dderbyn sylw digonol drwy gefnogaeth wedi'i ddarparu gan yr ysgol erbyn diwedd y broses honno.

*Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (TLR)*

- Caiff taliadau TLR1 a TLR2 eu dyrannu'n unol â'r meini prawf isod.
- Ni fydd disgwyl i athrawon ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol parhaus heb dalu TLR1 neu TLR2 yn barhaus iddynt.
- Bydd meini prawf clir ar gyfer dyfarnu, lefel a chyfnod taliadau TLR3 sy'n gyfyngedig o ran amser yn cael eu nodi. Bydd ymgynghori llawn gyda chynrychiolwyr undebau a chytundeb gyda'r NASUWT cyn y gwneir penderfyniad i wneud unrhyw daliad o'r fath.

*Gweithdrefnau apelio*

- Mae gan athrawon hawl i gyflwyno sylwadau ac apelio ynghylch unrhyw agwedd ar eu cyflog neu eu datblygiad cyflog yn unol â gweithdrefn apelio o fewn y polisi sy'n cwrdd, fan leiaf, â'r gofynion statudol ar ddatrys anghydfodau.

*Monitro ac adolygu'r polisi*

- Bydd y polisi yn cael ei fonitro a'i adolygu'n flynyddol gan y corff perthnasol ar y cyd â chynrychiolwyr undebau. Bydd adroddiad blynyddol ysgrifenedig ar weithrediad y polisi cyflogau, yn cofnodi penderfyniadau a wnaed ar gyflogau ac effaith ar gydraddoldeb yn cael eu darparu i gynrychiolwyr undebau.

## GRADDFEYDD CYFLOG AR Y BRIF RADDFA GYFLOG A'R RADDFA UWCH

| | C & Ll yn gyffredinol | Canol Llundain | Cyrion Llundain | Ardal Ymylol |
|---|---|---|---|---|
| **Prif Raddfa Gyflog** | | | | |
| 1 | £22,244 | £27,819 | £25,880 | £23,313 |
| 2 | £24,002 | £29,270 | £27,484 | £25,070 |
| 3 | £25,932 | £30,795 | £29,185 | £26,999 |
| 4 | £27,927 | £32,400 | £30,992 | £29,001 |
| 5 | £30,128 | £34,893 | £33,620 | £31,196 |
| 6 | £32,831 | £37,862 | £36,540 | £33,909 |
| **Graddfa Gyflog Uwch** | | | | |
| 1 | £35,218 | £42,756 | £38,739 | £36,287 |
| 2 | £36,523 | £44,857 | £40,173 | £37,590 |
| 3 | £37,871 | £46,365 | £41,660 | £38,941 |

Mae'r gwerth y cyflogau a gynhwysir yn y graddfeydd cyflog uchod yn adlewyrchu graddfeydd cyflog 2015, STPCD.

## MEINI PRAWF AR GYFER TALIADAU TLR1 a TLR2

Cyn dyfarnu taliad TLR1 neu TLR2, rhaid i'r ysgol fod yn fodlon fod dyletswyddau'r athro'n cynnwys cyfrifoldeb sylweddol nad yw'n ofynnol gan bob athro dosbarth a'i fod:

(a) yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu;

(b) yn galw am ddefnyddio sgiliau a barn broffesiynol athro;

(c) yn gofyn i'r athro arwain, rheoli a datblygu pwnc neu faes cwricwlwm, neu arwain a rheoli datblygiad disgyblion ar draws y cwricwlwm;

(d) yn cael effaith ar gynnydd addysgol disgyblion ar wahân i'r dosbarthiadau neu'r grwpiau o ddisgyblion a aseiniwyd i'r athro; ac

(e) yn cynnwys arwain, datblygu a gwella arferion addysgu staff eraill.

Yn ogystal, cyn dyfarnu TLR1, rhaid i'r ysgol fod yn fodlon fod y cyfrifoldeb sylweddol y cyfeirir ato uchod yn cynnwys cyfrifoldeb rheolwr llinell dros nifer sylweddol o bobl.

**www.nasuwt.org.uk/IndustrialAction**